**CYNGOR CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**07.04.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Caffi Stesion a ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| 1 | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; IW; AR; DP; EO;JOJ;GW;BJ<br><br>**Ymddiheuriadau:** DM;<br><br>**Mynychu:** SWR ; Cyng Ken Hughes<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at ohebiaeth gan Cyng. Dawn Lovelock yn mynegi ei dymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor Cymdeithas. Roedd yn nodi bod ymrwymiadau gwaith a theulu yn ei rhwystro rhag rhoi y sylw dyledus i waith y Cyngor Cymdeithas. Derbyniwyd ei chais a diolchwyd iddi am dros 17 mlynedd o wasanaeth i'r dalgych. Cytunwyd i'r Clerc gynabod ei llythyr yn ffurfiol.<br><br>Nododd Cyng Bethan Jukes ei dymuniad i ymddiswyddo hefyd a diolchwyd iddi hithau am ei chyfraniad ac yn arbennig ei gwaith yn cefnogi'r gymdeithas dros cyfnod COVID 19.<br><br>Nododd y Clerc nad oedd Cyng. Donna Mlynarczyc wedi cyflwyno pecyn cais i'r Cyngor Sir ar gyfer Etholiad 5 Mai 2022.<br><br>O ganlyniad roedd sefyllfa etholiadaol Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd fel â ganlyn:-<br><br>Ward Coedana – 2 sedd – 1 papur i law, felly sedd wag yma<br><br>Ward Llannerchymedd – 8 sedd – 7 papur i law, fely sedd wag yma<br><br>Ward Rhodogeidio – 3 sedd – 5 papur i law, felly bydd etholiad yn y Ward hon.<br><br>O ran etholiadau Cyngor Sir, nododd KH bod 100 cais i law ar gyfer 35 sedd ac 11 cais ar gyfer Ward Talybolion. |
| 2 | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd JAJ ddiddordeb yn Eitem 6 Materion Cynllunio a dymunodd |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth gyda Cadnant Planning. |
| | **Cyflwyniad gan cwmni Cadnant Planning**<br>Croesawyd Sarinah Farooq o gwmni cynllunio Cadnant Planning (yn rhitiol) i drafod cais cynllunio OP/2021/10 Ty'n Ffynnon.<br><br>Cafwyd cefndir byr gan Ms Farooq ar y cais hwn gan nodi bod pryderon parcio wedi eu nodi pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol. Nodwyd bod safle'r Stesion wedi ei gyferiio ato gan gyn swyddog Adran Cynllunio ac nad ydy'r safle yma, sy'n eiddo preifat y Cyngor Cymdeithas yn berthnasol bellach. O ganlyniad mae ymdrechion wedi eu cyflwyno i geisio lleddfu'r broblem parcio ac y gyfredol mae'r cynllun yn cynnig 6 man parcio ar ochr y ffordd ger y fynedfa ar Ffordd Caergybi a 6 man oddimewn i'r safle. Nododd bod y cais yn cyferio at 10 annedd cymysg o rai fforddiadwy a rhai ar gyfer y farchnad agored. Trafodwyd parcio saeth ben (herrignbone) er mwyn ceisio mannau parcio ychwanegol tu allan i'r safle. Roedd SF o'r farn na fyddai hyn yn dderbyniol gan yr Adran Priffyrdd gan fyddai'n ofynol i geir fod yn bacio allan i'r ffordd fawr.<br>Diolchwyd i SF am fynychu ac am ei chyflwyniad.<br><br>Yn dilyn trafodaeth bellach cytunwyd i'r Clerc anfon y sylwadau canlynol at y swyddog cynllunio:-<br><br>• Oes modd creu 'layby' naill du i'r mynediad sydd ar y cynllun? Er na fyddai hyn yn rhan o'r cynllun arfaethedig ond mi fyddai yn fodd o ymestyn y mannau parcio tra bod gwaith yn mynd rhagddo. Fe fyddai wrth gwrs yn drefniant rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymdeithas ac yn annibynnol i'r cais hwn ond rydym yn teimlo y gall bod colli cyfle yma i ddatrys problem parcio enfawr yn yr adral.<br>• Oes modd trefnu parcio dull saeth ben (herringbone)? Nododd Sarinah efallai na fyddai hynny yn bosib oherwydd moduron wedyn yn bagio i'r ffordd. Ond rydym am nodi fod yr ardal o fewn cyfyngder 30mya a fydd, o bosib, yn cael ei ostwng i 20ma ym mhen amser. Hefyd, mae'n llawer mwy tebygol i ddamwain ddigwydd gyda'r sefyllfa fel ag y mae (ac mae nifer fawr o drigolion wedi nodi eu bod wedi cael profiad agos o ddamwain eisoes)<br>• Er bod y cynllun wedi adnabod 6 man parcio ychwanegol o fewn y safle y teimlad yw efallai na fyddai rhain yn hwylus i breswylwyr sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Hefyd, gallasai preswylwyr newydd y stad deimlo bod ganddynt fwy o berchnogaeth ar yr ardaloedd hyn.<br><br>Clerc hefyd i gysylltu a Cyng. JG gan ei fod wedi galw'r cais i mewn. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **3** | *Ail ymunodd JAJ a'r cyfarfod.*<br><br>**Cofnodion**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 3.3.22 fel rhai cywir - (DAW/EO)<br>**Materion yn Codi**<br>**Cyfarfod gyda Rhys Jones Eiddo**<br>Adroddodd y Clerc ar gyfarfod gyda ein asiant Rhys Jones Eiddo. Cytunwyd ar y Rhaglen Waith isod ar gyfer yr wythnosau nesaf.<br>- RJ i drafod cynnigion CSYM parthed ardal Unedau Tan y Foel er mwyn darparu cyflwyniad cynhwysfawr i gyfarfod arbenning ar y pwnc.<br>- Cysylltu a tenantiaid Uned 4;5 a 6 i geisio eu bwriadon ac i'w hysbysu bydd adolygiad rhent buan.<br>- Cysylltu gyda Menter Môn i drafod cytundeb a rhent ar gyfer Uned 1<br>- Trafod rhent a chytundeb Uned 2 gyda Wayne Feehily unwaith bydd yr Uned yn barod i'w gosod<br>- Adolygu Cytundeb Caffi'r Stesion sydd bellach yn hwyr<br>- Prisio holl eiddo y Cyngor Cymdeithas mewn cyd-weithrediad a Gareth Owen FUW – ein asiant yswiriant.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu oi greu fersiwn 7.4.22 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br>BJ – dymunodd ddiolch i'r Cyngor am y croeso a'r cyd-weithio dros ei chyfnod yn Gynghorydd.  Nododd hithau bod ymrwymiadau gwaith a theulu wedi cynnyddu iddi.<br>RJ – nododd bod y wal rhwng 11 a 16 Maes Cyheulyn angen sylw, Clerc i gysylltu ag Adran Eiddo CSYM<br>- Tyllau yn y ffyrdd ger y fynedfa i'r Stesion, mynedfa Sarn Fadog (sydd wedi ei nodi eisoes i'r Adran Priffyrdd) a'r ffordd yn gyffredinol o'r Llan hyd at Carmel.  Cytunodd KH i adrodd i'r Adran ar ein rhan.<br>IW – nododd bod angen diogelu'r slabiau gen ochr y Caffi a thrwshio gwaith teils yn y toiledau.  Mae Carolyn wedi gofyn hefyd am gael rhoi gorchudd ar y ffenestri (tebyg i rhai a flaen y Caffi) Cytunwyd i'r holl waith ac i'r Clerc drefnu gyda Carolyn.<br>TAJ –mynegodd bryder am y sefyllfa berygl pan fo plant yn cerdded i'r Ysgol.  Cytunwyd i holi eto am rampiau ger Twrcelyn a ger y groesfan |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383

| | |
|---|---|
| | ar y stryd fawr.<br><br>GW – cais gan drigoion Glan Aber am wella golau stryd. Clerc i weithredu.<br><br>DP – cyfeiriodd at ddamwain eto ar y tro lle bu damwain angeuol ychydig wythnosau yn ôl. Nodwyd bod CSYM yn cynnal ymchwiliad gyda asiantaethau eraill ar gyflwr y ffordd a chytunwyd i ddisgwyl canlyniad yr ymchwiliad.<br><br>JAJ – angen arwyddion rhybudd addas ar y ffordd Nantanog tuag at Llan ger Traean. Clerc i weithredu<br><br>- Nododd bod car wedi ei barcio yn anaddas ger Y Garth. Nododd y Clerc nad oedd wedi cael cyfle i anfon llythyr at y perchennog eto, nac i osod rhybudd swyddogol ar amrywiol barcio anaddas trwy'r pentref. DAW a'r Clerc i weithredu rhag blaen.<br>- Parcio ar linellau melyn ar hyd y ffordd trwy Ffordd Caergbybi yn parhau. Nododd y Clerc bod JG wedi gwneud cais am ymweliad Warden Traffig – Clerc i ddilyn i fyny.<br>- Diolchodd i'r Clerc am ei chymorth wrth cwblhau ffurflenni statudol y Comisiwn Elusennol ar gyfer Cae Gofeb ac Ysgol Haearn. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod 3.3.22** — **£**<br>Dwr Cymru – Clwb Bowlio (6mis) — 35.10<br><br>Cyflog Clerc – 3 mis £1633.47; Costau Blynyddol – Trydan, papur, inc ayyb £550; ZOOM x 3 mis £43.17; Cost argraffydd newydd Amazon £60 — 2286.64<br><br>PGF Agri – trwshio peiriant torri gwair CPD (gyda ad-daliad gan y clwb o £380.69) — 456.83<br><br>HJT Electrics – trwshio peiriant coffi Caffi — 77.42<br>HJT Electrics – gosod solenoid yn pobdy'r Caffi — 81.60<br><br>**Biliau cyfredol:** — **£**<br>FUW – cost ychwanegu at y premiwm yswiriant — 124.18<br>HJT Electrics – gwirio a thrwshio goleuadau allanol a golau toiledau dynion y Caffi — 78.43<br>Dwr Cymru – Fynwent Gyhoeddus (Medi 21 – Mawrth 22) — 13.26 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Dwr Cymru – Uned 2 (Medi 21 – Mawrth 22) 167.92<br>**Taliadau/Rhoddion Blynyddol**<br>Yr Arwydd 100.00<br>Hosbis Dewi Sant 50.00<br>Ambiwlans Awyr Cymru – trwy noddi taith gerdded<br>staff yr Ysgol Gynradd er cof am Elgan Jones 50.00<br>Apel DEC Wcrain 50.00<br><br>**Yn y banc heddiw:**<br>Cyfredol: £14377.00<br>Cronfa Wrth Gefn: £11432.13 (£8K wedi ei glustnodi ar gyfer llwybrau'r Fynwent Gyhoeddus) |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>**Cais FPL/2021/308, Plas Carmel, Carmel** -<br>Cytunwyd i anfon y sylwadau canlynol gan nodi na chymeradwywyd y cais fel ag y mae:-<br>• mynegi pryder am gynnydd mewn traffig pe gymeradwywyd hyd at 5 uned ar y safle hwn.<br>• mae problemau gor yrru ar hyd y ffordd trwy Carmel yn pery gofid i drigolion y pentref eisoes<br>• pryder hefyd am gyflwr y ffordd o'r safle i'r pentref.<br><br>**Cais HHP/2022/65 - Tyddyn Berllan Coedana**<br>Dim gwrthwynebiad<br>**Cais OP/2021/10 - Ty'n Ffynnon Llannerchymedd –** trafodwyd eisoes ar ddechrau'r cyfarfod. |
| **7** | **Materion Safloedd**<br>**Cae Gofeb –** dim i law<br>**Ysgol Haearn –** dim i law<br>**Unrhyw Fater Arall**<br>**Swper Cymdeithsol** – cytunwyd i'w gynnal am 6:30 nos Fercher 27 Ebrill yng Nghaffi Stesion. Clerc i drefnu a chylchredeg y fwydlen rhag blaen.<br>**Hysbysfwrdd ger Glan Menai** - adroddodd y Clerc ei bod wedi cael cais iosod hysbysfwrdd yn fwy canolog gyda awgrym o'i osod ger Glan |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Menai.  Clerc i holi Coed y Glyn yn y man cyntaf.<br><br>**Cloch yr Eglwys -** cais i law yn holi am Gloch yr Eglwys. Nodwyd bod cynnig wedi ei dderbyn dro yn ôl i drwshio'r gloch a'r manylion wedi eu pasio ymlaen i'r swyddogion perthnasol ond ni bu datblygu pellach.  GW i drafod gyda Parch Emlyn Williams.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 pm* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383